Llenyddiaeth Cymru, Canolfan Glyn Jones,
Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL
Literature Wales, Glyn Jones Centre,
Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff, CF10 5AL
Ffôn | Phone: 029 2047 2266
Gwefan | Website: www.llenyddiaethcymru.org | www.literaturewales.org
Twitter: @LlenCymru | @LitWales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Stryd Pierhead
Caerdydd
CF99 1NA

PARTHED: Rôl celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'r cwestiwn canlynol:

- Pa mor effeithiol y mae ymdrechion cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (sef Cyngor y Celfyddydau, yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a llywodraeth leol wedi bod i ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi?

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru, ac fe'i ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2019-2022 mae ein gweithgareddau wedi eu strwythuro o dan dair colofn, a Cyfranogi yw un o'r colofnau hynny. Gan ganolbwyntio rhagor ar dargedu cleientiaid, a phennu canlyniadau ac effaith ein gwaith, rydym yn cyflawni ac yn cefnogi gweithgaredd sy'n defnyddio darllen ac ysgrifennu creadigol i rymuso, gwella a chyfoethogi bywydau rhai o'r unigolion a chymunedau mwyaf ymylol.

Ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant fel egwyddor datblygu cynaliadwy, gan geisio rhyddhau problemau cymdeithasol parhaus megis tlodi, unigrwydd ac unigedd.

Rydym yn blaenoriaethu gweithio gyda chymunedau lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau, trwy ganolbwyntio ar weithio â chyfranogwyr o gefndiroedd du, Asiaidd neu leiafrif ethnig (BAME), pobl ar incwm isel, a phobl sydd ag anableddau neu salwch (meddyliol a chorfforol). Rhain yw rhai o'r bobl sydd fwyaf tebygol o wynebu rhwystrau o ran symudedd cymdeithasol, llwyddiannau ym myd addysg, cyflogadwyedd hirdymor, ac iechyd meddyliol a chorfforol da. Rydym yn eu targedu'n benodol

oherwydd nad oes niferoedd uchel ohonynt yn mynychu gweithgareddau celfyddydol ar hyn o bryd boed fel cyfranogwyr neu chynulleidfaoedd (Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, 2015), a hynny er gwaethaf y pŵer amlwg sydd gan y celfyddydau – ac yn ein barn ni, llenyddiaeth yn benodol – wrth gynhyrchu canlyniadau personol sydd â'r potensial i gael effaith hirdymor yn gymdeithasol ac yn economaidd (e.e. sgiliau ysgrifenedig a llafar a rhagor o hyder mewn hunanfynegiant a cymdeithasgarwch).

Mae enghreifftiau diweddar o'r mathau o weithgareddau rydym yn eu cynhyrchu yn cynnwys:

Ozzie y Gwalch ac Under Liberty Skies

"Rydym wir wedi gweld gwahaniaeth yn y disgyblion â'r rhieni o gymharu â sut oedden nhw ar dechrau'r cynllun – mae eu hyder wedi cynyddu'n eithriadol"
Paul Whapham, Pennaeth Cymuned – Rhanbarth y Gweilch

Ym mis Tachwedd, cydweithiodd Llenyddiaeth Cymru a Y Gweilch yn y Gymuned gydag Ysgol Gynradd Gymunedol Sea View ac Ysgol Gymunedol Townhill ar ddau o brosiectau. Bu disgyblion a'u rheini yn mynychu gweithdai creadigol wythnosol gyda'r awdur Mike Church a'r gwneuthurwr ffilmiau Natasha James yn Stadiwm Liberty, yn archwilio'r cae ac yn cwrdd â rhai o chwaraewyr tîm rygbi'r Gweilch er mwyn sbarduno eu dychymyg. Fe greodd Ysgol Gynradd Gymunedol Sea View y llyfr *Ozzie y Gwalch* yn seiliedig ar fasgot y tîm, tra bu Ysgol Gymunedol Townhill yn creu cerdd a ffilm am ddiwrnod gêm o'r enw *Under Liberty Skies*.

Lansiwyd y llyfr a'r gerdd ar 30 Tachwedd 2018 mewn seremoni yng nghwmni gwahoddedigion megis y chwaraewr rygbi **Bradley Davies**. Dangoswyd y ffilm ar sgriniau mawr yn y stadiwm cyn dechrau gêm Y Gweilch yn erbyn Zebre.

Sbardunodd y prosiect hwn gynnydd yn hyder y disgyblion a'u rhieni, a gwelwyd datblygiad yn eu hymdeimlad o hunan-werth, yn y modd y maent yn mynegi eu hunain, a'u gallu a'u parodrwydd i dderbyn cyfleoedd newydd. Byddwn yn parhau i fonitro'r cyfranogwyr er mwyn dadansoddi'r effaith hirdymor arnynt.

Rhannu Odlau a Straeon

Y cerddi cyntaf yr oeddwn i'n ymwybodol ohonynt oedd hwiangerddi, a cyn i mi ddysgu eu darllen drosof fy hun, roeddwn wedi fy swyno gyda'u geiriau, a dim ond y geiriau – Dylan Thomas

Ysbrydolodd y dyfyniad hwn gan Dylan Thomas brosiect rhwng dwy genhedlaeth gyda phreswylwyr a staff cartrefi gofal Parc Trafalgar ac Abermill, a phlant ifanc o feithrinfeydd Startrite a Footsteps, Caerffili. Roedd y prosiect yn rhan o raglen Llên Pawb Llenyddiaeth Cymru, ac fe'i drefnwyd ar y cyd â thîm Datblygu Celfyddydau Caerffili.

Dros gyfnod o chwe wythnos rhwng Medi – Tachwedd 2018, bu'r awdur a pherfformiwr **Rufus Mufasa** yn arwain sesiynau creadigol a fu'n annog y plant a'r preswylwyr i rannu eu hoff hwiangerddi a straeon. Helpodd hyn greu cysylltiadau trwy eiriau a rhythmau, a rhwng y cenedlaethau. Y nod oedd lleihau unigrwydd ymysg preswylwyr y cartrefi gofal, gan gyfrannu at ddatblygiad yn eu llesiant personol.

Mae Llên Pawb wedi ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gyda chyllid gan wyth Awdurdod Lleol – Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Caerffili, Casnewydd, Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Llun © Camera Sioned / Llenyddiaeth Cymru

Cerddi’r Cofi Armi

“…Cafodd y profiad o gymryd rhan yn y prosiect hwn a chael eu cyfweld ar gyfer rhaglen deledu ddylanwad bythgofiadwy ar yr hogiau... Nid yn unig y maen nhw wedi datblygu sgiliau gweithio fel tîm, maent wedi datblygu ymdeimlad o falchder o fod yn rhan o rhywbeth mwy – eu cymuned...” Sam Humphreys – Swyddog TRAC

Dros Haf 2018, bu’r beirdd a’r dilynwyr pêl-droed brwd **Ifor ap Glyn** a **Rhys Iorwerth** yn arwain gweithdai ysgrifennu creadigol gyda grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 8 o Ysgol Syr Hugh Owen. Roedd y disgyblion yn rhan o gynllun TRAC 11-24 Gwynedd, sy’n cefnogi pobl ifanc sydd mewn peryg o ymbellhau o addysg. Roedd y prosiect yn rhan o raglen Llên Pawb Llenyddiaeth Cymru, ac fe’i drefnwyd ar y cyd â TRAC Gwynedd a Cics Cymru - cynllun gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru i annog pobl ifanc i wneud rhagor o chwaraeon.

Bu’r bobl ifanc yn cyfansoddi cerddi byrion ar themâu megis balchder yn y clwb, arwyr a dathliad. Gosodwyd un ar ddeg cerdd – un yr un gan Ifor, Rhys a’r naw cyfranogwr – ledled yr Ofal, sef cartref Clwb Pêl-Droed Caernarfon ym mis Medi, a cynhaliwyd seremoni yno i’w datguddio.

Fe gynhyrchodd y prosiect ymdeimlad o falchder a chyrhaeddiad ymysg y bobl ifanc; rhai nad ydynt yn derbyn canmoliaeth yn aml. Cyfrannwyd at gynnydd mewn hyder a hunan-fynegiant, gan gryfhau ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-werth. Byddwn yn parhau i fonitro’r cyfranogwyr er mwyn dadansoddi’r effaith hirdymor arnynt.

Mae Llên Pawb wedi ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gyda chyllid gan wyth Awdurdod Lleol – Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Caerffili, Casnewydd, Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Buaswn i’n barod iawn i drafod ein gwaith a’n Cynllun Strategol ar gyfer 2019-2022 gyda chi ymhellach pe byddai hynny’n ddefnyddiol, ac edrychaf ymlaen at glywed canlyniad eich ymchwil i’r pwnc hwn maes o law.

Yr eiddoch yn gywir,

Lleucu Siencyn
Prif Weithredwr: Llenyddiaeth Cymru